Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

# Gwahoddiad i Dendro (ITT)

## Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol Cymru

**Cyfeirnod:** IZ-NMIW-IT01

**Cyllideb:** £180,000 yn cynnwys TAW

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

## Cynnwys


Adran 1 ... 4
Cefndir ... 4
Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ac Uchelgais Gogledd Cymru ... 4
Adran 2 ... 5
Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam ... 5
Amcan y Prosiect ... 5
Cwmpas y Gwaith ... 5
Cyllideb ... 6
Ymgysylltu ... 6
Allbynnau Allweddol ... 6
Adran 3 ... 6
Profiad, sgiliau ac unrhyw ofynion ychwanegol i'r rôl ... 6
Profiad a gwybodaeth ... 6
Sgiliau ... 6
Adran 4 ... 6
Gwerth Cymdeithasol ... 6
Adran 5 ... 6
Amserlenni ... 7
Proses Dendro a Chanllawiau Cyflwyno ... 7
Sut i gyflwyno ... 7
Cwestiynau ... 9
Cyflwyno'r Tendr ... 9
Gwerthuso a Phenodi ... 9
Hawliau ... 10
Adran 6 ... 11
Rhestr wirio ... 11
Adran 7 ... 13
Gwybodaeth Ychwanegol ... 13
Yswiriant Indemniad ... 13
Cyfle Cyfartal ... 13
Rhyddid Gwybodaeth ... 13
Cyfrinachedd ... 13

Buddiannau Sy'n Gwrthdaro 14
Telerau ac Amodau 14
Cyflwyniadau'r Consortiwm 14
Ffynonellau Data 14
Cronfa Data Cyflenwyr a Holiadur Cyfleoedd Cyfartal 15
Atodiadau 15

# Adran 1

## Cefndir

### Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru ac Uchelgais Gogledd Cymru

Sefydlwyd partneriaeth Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ym 2012 i ddatblygu dull rhanbarthol o dyfu economaidd a mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau sydd yn wynebu economi Gogledd Cymru, ac y gweithredodd o dan enwad brand Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae'r bartneriaeth yn gweithredu ar draws chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru sy'n cynnwys cynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Roedd y bartneriaeth hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai.

Mae Cytundeb Twf Gogledd Cymru yn gytundeb tri pharti, a lofnodwyd ym Mis Rhagfyr 2020 rhwng Uchelgais Gogledd Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac mae wedi sicrhau cyllid o £240m gan y Llywodraeth i fuddsoddi yn economi Gogledd Cymru fel rhan o'r cytundeb £1bn.

Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio, a sefydlwyd i gyflawni'r Cytundeb Twf, yn darparu gweithgaredd strategol a gweithredol Uchelgais Gogledd Cymru gyda thîm o Reolwyr Rhaglen a Phrosiect sy'n cyflawni prosiectau ar draws portffolio amrywiol, wedi'i chefnogi gan dîm ehangach o swyddogion / staff.

Ym mis Ebrill 2024, daeth y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn Gyd-Bwyllgor Corfforedig, gyda chyfrifoldebau newydd dros drafnidiaeth rhanbarthol a chynllunio strategol yn ogystal â chyfrifoldeb dros wella a hyrwyddo lles economaidd Gogledd Cymru. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn cynnwys y chwe awdurdod lleol a Chyngor Parc Cenedlaethol Eryri. Cytunodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig i fabwysiadu brand Uchelgais Gogledd Cymru.

Ar 1af Ebrill 2025, trosglwyddwyd y Swyddfa Rheoli Portffolio a Chynllun Twf Gogledd Cymru i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig sy'n cael ei hadnabod bellach fel Uchelgais Gogledd Cymru.

Mae mwy o wybodaeth am Uchelgais Gogledd Cymru, y CBC a Chynllun Twf Gogledd Cymru ar gael ar y wefan - Uchelgais Gogledd Cymru | Cartref.

Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru fydd yr awdurdod contractio ar ran Uchelgais Gogledd Cymru.

# Adran 2

## Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

Uchelgais Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â chynghorau Sir y Fflint a Wrecsam i gyflawni Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam - a fydd yn gweld buddsoddiad o hyd at £160m dros 10 mlynedd.

Fel ymrwymiad ar y cyd gan lywodraethau'r DU a Chymru, nod y Parth Buddsoddi yw gwella a thyfu clwstwr gweithgynhyrchu uwch o bwys byd-eang.

Bydd yn rhyddhau potensial pellach i Sir y Fflint a Wrecsam, sydd eisoes yn gartref i weithrediadau gweithgynhyrchu gwerth uchel a safleoedd diwydiannol strategol, drwy gynnig cyfuniad unigryw o gymorth, seilwaith a chymhellion wedi'u targedu sydd wedi'u dylunio i ddenu a chynnal busnesau. Bydd y buddion yn fuddion pellgyrhaeddol, yn ymestyn ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt.

Mae'r cyfle sylweddol ar gyfer twf eisoes wedi'i gydnabod, gyda chewri fel Airbus a JCB yn mynegi cefnogaeth.

## Amcan y Prosiect

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn ceisio caffael partneriaeth o bartneriaid arloesi sefydledig sydd â phrofiad yn y diwydiant i ddatblygu dichonoldeb Sefydliad Gweithgynhyrchu Cenedlaethol Cymru.

## Cwmpas y Gwaith

Dylai'r cynnig ystyried sut y gall busnesau gweithgynhyrchu mawr gynyddu eu mabwysiadu o Ddysgu Peirianyddol a Deallusrwydd Artiffisial i gynyddu effeithlonrwydd gweithgynhyrchu, cynyddu cynhyrchiant a chryfhau eu cadwyni cyflenwi lleol.

Dylai'r astudiaeth ddichonoldeb ddangos y cysyniad mewn cyfleusterau busnes a chyflwyno gweledigaeth a'r camau nesaf angenrheidiol i greu cyfleuster NMIC yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Dylai'r cysyniad ystyried arloesi ac ymgysylltu gweithgynhyrchu presennol yn y rhanbarth.

Disgwylir i'r astudiaeth ddichonoldeb gymryd 12 mis i'w chyflawni.

Rhaid i bartneriaethau sy'n bidio ddangos eu profiad blaenorol, eu gallu a'u gallu gweithgynhyrchu i gael eu hystyried ar gyfer y comisiwn hwn.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

### Cyllideb

Y gyllideb ar gyfer y contract hwn yw £180,000 gan gynnwys TAW am gyfnod y contract.

### Ymgysylltu

Disgwylir i gynigion ddangos cefnogaeth partneriaid diwydiant allweddol ac unrhyw gefnogaeth sefydliad arloesi priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni'r rhaglen a gynigir.

### Allbynnau Allweddol

Astudiaeth ddichonoldeb sy'n nodi'r cwmpas a'r cyfle ar gyfer Sefydliad Gweithgynhyrchu cenedlaethol yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Dylai'r astudiaeth ddichonoldeb gynnwys tystiolaeth o gydweithredu â diwydiant i brofi a threialu'r dulliau a nodir ar gyfer sut y bydd sefydliad o'r fath yn gweithredu a chyflawni budd ar gyfer arloesedd gweithgynhyrchu uwch gyda chefnogaeth y sector preifat, y Parth Buddsoddi a rhaglenni cyhoeddus eraill.

## Adran 3

### Profiad, sgiliau ac unrhyw ofynion ychwanegol i'r rôl

#### Profiad a gwybodaeth

- Profiad uniongyrchol o ddatblygu canolfannau arloesi
- Profiad uniongyrchol o ddylunio a gweithredu rhaglenni arloesi sy'n dod â'r sectorau cyhoeddus, preifat ac academaidd at ei gilydd
- Profiad uniongyrchol o weithio gyda diwydiant i adnabod a datrys heriau arloesi

#### Sgiliau

- Mae'r holl sgiliau angenrheidiol yn cyd-fynd â'r profiadau a nodir uchod.

## Adran 4

### Gwerth Cymdeithasol

Gweler Atodiad 4 am wybodaeth am yr elfen cyflwyno Gwerth Cymdeithasol.

## Adran 5

## Amserlenni

Rhagwelir y bydd yr amserlen isod yn cael ei dilyn:

**Tabl 1** - Amserlenni

| | |
|---|---|
| Agor i Geisiadau | 5ed Rhagfyr 2025 |
| Cyfnod cwestiwn ag Ateb yn cau | 18fed Rhagfyr 2025 - 16:00 |
| Dyddiad cau ceisiadau | 6ed Ionawr 2026 – 12:00 haner Dydd |
| Cyfnod Gwerthuso | 6ed Ionawr 2026 |
| Dyfarniad | Wythnos cychwyn 19eg Ionawr 2026 |
| Cyfarfod Cychwynnol / Dechrau'r Contract | Wythnos cychwyn 19eg Ionawr 2026 |
| Diwedd y contract | 31 Mawrth 2027 |

## Proses Dendro a Chanllawiau Cyflwyno

### Sut i gyflwyno

**Rhaid cyflwyno pob tendr yn electronig drwy blatfform GwerthwchiGymru. Ni fydd Uchelgais Gogledd Cymru yn derbyn tendrau a dderbynnir mewn unrhyw fformat arall.**

1. Cyflwyniad technegol **(uchafswm o 6 tudalen A4 - Ffont Arial 12)**

   - 60% sgôr gyffredinol - gweler 'Adran 5 - Gwerthuso a Phenodi' am feini prawf a phwysoliad penodol.
   - Defnyddiwch Atodiad 1 – templed Cyflwyniad Technegol i gyflwyno'ch cynnig technegol.

2. Cyflwyniad masnachol **(dim cyfyngiad nifer o dudalennau)**

   - 30% sgôr gyffredinol - gweler 'Adran 5 - Gwerthuso a Phenodi' am feini prawf a phwysoliad penodol.
   - Dylai ymgeiswyr gyflwyno prisiau **sy'n cynnwys TAW.**
   - Dylai'r costau arfaethedig gynnwys yr holl gostau cyfieithu, ac unrhyw gostau a threuliau cysylltiedig y disgwylir iddynt gael eu cynnwys yn y ffi arfaethedig.
   - Defnyddiwch Atodiad 2 – templed Cyflwyniad Masnachol i gyflwyno'ch cynnig masnachol.

3. Cyflwyniad Gwerth Cymdeithasol **(uchafswm o 1 tudalen A4 - Ffont Arial 12)**

- 10% sgôr gyffredinol - 'gweler Adran 5 - Gwerthuso a Phenodi' am feini prawf a phwysoliad penodol.
- Cyfeiriwch at Atodiad 4 - Gofyniad Gwerth Cymdeithasol am wybodaeth ynglŷn â'r cyflwyniad Gwerth Cymdeithasol.
- Defnyddiwch Atodiad 3 - templed Cyflwyno Gwerth Cymdeithasol i gyflwyno'ch cynnig gwerth cymdeithasol.

4. Atodiadau
- **Wedi'i gyfyngu i CVs y tîm yn unig.**
- Dylid defnyddio atodiadau a ddarperir fel rhan o'r cyflwyniad i ddarparu tystiolaeth ychwanegol a deunydd darluniadol i gefnogi ymateb i gwestiynau cynigwyr. Ni ddylid defnyddio atodiadau i ateb rhannau o'r cwestiynau nad ydynt wedi'u hystyried ym mhrif gyflwyniad y cynnig - mewn achosion o'r fath ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei hystyried fel rhan o'r gwerthusiad.
- Ni chaiff atodiadau eu sgorio.
- Rhowch deitlau clir i'ch atodiadau os gwelwch yn dda.

Mae Adran 6 ac Atodiad 11 yn cynnwys rhestr wirio lawn o ddogfennau o'r hyn y mae'n rhaid i chi ei gyflwyno fel rhan o'r tendr hwn. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cyfeirio at y rhestr wirio hon drwy gydol y broses, yn enwedig cyn i chi gyflwyno'ch cynnig, i sicrhau eich bod wedi cwblhau a chyflwyno'r holl ddogfennau gorfodol. Gall methu â chyflwyno dogfennau gorfodol olygu bod eich cyflwyniad yn cael ei eithrio o'r gwerthusiad.

Mae'r cyfle hwn yn addas i gonsortiwm a / neu BBaCh os gellir darparu tystiolaeth i ddangos y gellir cyflawni'r cwmpas. Yn achos consortiwm, byddai disgwyl i'r prif gyflenwr arweiniol gyflwyno'r cais yn unig (bydd disgwyl i aelod o'r consortiwm gael ei nodi ar y PQQ).

Mae'r cyfle hwn yn addas i gonsortiwm a / neu BBaCh os gellir darparu tystiolaeth i ddangos y gellir cyflawni'r cwmpas. Yn achos consortiwm, byddai disgwyl i'r prif gyflenwr arweiniol gyflwyno'r cais yn unig (bydd disgwyl i aelod o'r consortiwm gael ei nodi ar y PQQ).

Dylai ceiswyr ystyried dim ond yr wybodaeth sydd yn y ddogfen hon a'r dogfennau cefnogol, neu un rhywbeth a gyfathrebwyd yn ffurfiol atoch yn ysgrifenedig wrth wneud eich cynnig. Mae'n rhaid i geiswyr geisio eglurhad os nad ydynt yn deall un rhywbeth.

Cyfrifoldeb yr Ymgeiswyr yw sicrhau eu bod wedi deall y dogfennau ITT a'u bod yn eu cwblhau'n gywir. Rhaid i ymgeiswyr geisio eglurhad os nad ydynt yn deall unrhyw beth.

Nid yw Uchelgais Gogledd Cymru yn gyfrifol am ddogfennau tender sy'n cael eu dychwelyd wedi'u cwblhau'n anghywir.

## Cwestiynau

Gallwch gyflwyno, erbyn **16:00, 18fed Rhagfyr 2025** fan bellaf, unrhyw ymholiadau sydd gennych am y Gwahoddiad i Dendro hwn. Cyflwynwch y cyfryw ymholiadau gan ddefnyddio'r Swyddogaeth Holi ac Ateb ar GwerthwchiGymru. Cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl, bydd yr Uchelgais Gogledd Cymru ymateb i bob cais rhesymol am esboniad i unrhyw agwedd ar y Gwahoddiad i Dendro hwn a'r dogfennau ategol, os cânt eu gwneud cyn y terfyn amser uchod.

- Derbynnir cwestiynau mewn fformat dienw.
- Bydd pob cwestiwn ac ateb yn cael ei ymateb a'i anfon at bob ymgeisydd.

## Cyflwyno'r Tendr

Rhaid i chi gyflwyno eich ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro hwn erbyn **12:00 haner Dydd, 6ed Ionawr 2026** yn unol â darpariaethau'r cyfryw Wahoddiad i Dendro. Ceidw'r Uchelgais Gogledd Cymru hawl i ymestyn y dyddiad cau. Bydd unrhyw estyniad a ganiateir yn berthnasol i bob Sefydliad sy'n Tendro. Ceidw'r Uchelgais Gogledd Cymru hawl i wrthod unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau.

- Derbynnir cyflwyniadau yn unol â'r cyfarwyddiadau uchod yn unig – ni fydd unrhyw gais arall yn cael ei dderbyn.
- Ni fydd unrhyw dendr yn cael ei ystyried oni chaiff ei gyflwyno drwy'r Swyddogaeth 'Blwch Post' ar GwerthwchiGymru – ni fydd unrhyw dendrau a gyflwynir drwy ddulliau eraill yn cael eu hystyried

## Gwerthuso a Phenodi

Bydd cynrychiolwyr o Uchelgais Gogledd Cymru yn gyfrifol am werthuso ceisiadau a phenodi'r ymgeisydd llwyddiannus o ganlyniad i'r broses werthuso.

Gan dynnu o'r gofynion a nodir yn adran 2 & 3 bydd yr holl geisiadau a dderbynnir yn cael eu gwerthuso ar Yn dilyn y sail:

**Tabl 2** – Tystiolaeth ar gyfer Cyflwyniad

| Meini prawf a phwysau | Disgrifiad Criteria | Sgôr ar gael |
|---|---|---|
| **Technegol - 55%** | Methodoleg i gwbwlhau cwmpas y gwaith fel y nodir yn Adran 2 | 50% |
| | Tystiolaeth o gwblhau gwaith tebyg yn llwyddiannus (fel y manylir uchod) a sut mae'r gwybodaeth, profiad a sgiliau hyn yn caniatáu i'r ymgeisydd fodloni'r holl gytundebau a gwasanaeth. | 50% |

| | | |
|---|---|---|
| **Masnachol - 30%**<br><br>**Cyllideb:** £180,000 gan gynnwys TAW<br><br>***Ni chaiff cyflwyniad dros y pris nodwyd uchod ei ystyried.*** | Pris cyffredinol ar gyfer graddfa'r gwaith. | 70% |
| | Disgrifiad (breakdown) i gefnogi'r gost a gyflwynwyd. | 30% |
| **Gwerth Cymdeithasol - 15%** | Gwerth Cymdeithasol ansoddol.<br><br>Gweler Atodiad 4 am wybodaeth ynglŷn â'r cyflwyniad Gwerth Cymdeithasol. | 100% |

Gweler Atodiad 5 - Matrics Sgorio am fanylion pellach.

Bydd y Tîm Gwerthuso yn sgorio pob adran neu ymateb. Bydd yr holl gwestiynau'n cael eu gwerthuso yn unol â'r fethodoleg sgorio ansawdd isod a bydd y sgôr a roddir yn adlewyrchu'r lefel o hyder a geir o'r ymatebion sy'n cael eu hystyried. Mae'r dehongliadau generig o'r meini prawf ar gyfer y gwahanol lefelau hyder wedi'u crynhoi yn Nhabl 3.

**Tabl 3** – Methodoleg Sgorio Ansawdd

| Sgôr | Perfformiad | Beirniadaeth |
|---|---|---|
| **5** | Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn rhagori ar ofynion. | Arbennig |
| **4** | Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer darparu'r gwasanaeth. | Da |
| **3** | Mae'r wybodaeth a ddarparwyd ond mae pryderon y gellid fod gan y cwmni ddiffygion sylfaenol i gyflawni'r safon ofynnol ar gyfer darparu'r gwasanaeth. | Derbyniol |
| **2** | Gwybodaeth fyr a ddarparwyd ond mae pryderon bod gan y cwmni ddiffyg gwybodaeth neu ddarparu ar gyfer y gwasanaeth. | Amheus |
| **1** | Mae'r wybodaeth yn anghyflawn. | Gwael |
| **0** | Nid yw'n darparu unrhyw wybodaeth / mae'r wybodaeth yn hollol annigonol. | Methu |

Mae'r sgôr ar gyfer yr elfen pris yn cael ei gyfrifo'n awtomatig gan y daflen sgorio trwy gym haru pris y tendrwr â'r pris cydymffurfio isaf.

## Hawliau

Ceidw Uchelgais Gogledd Cymru hawl i:

- Dyfarnu'r contract i'r cynnig mwyaf manteisiol gan ystyried holl agweddau ansawdd y cyflwyniad.
- Hepgor neu newid gofynion y Gwahoddiad i Dendro hwn o bryd i'w gilydd heb roi unrhyw rybudd ymlaen llaw.
- Ceisio esboniad neu ddogfennau mewn perthynas â chyflwyniad Sefydliad sy'n Tendro.
- Diarddel unrhyw Sefydliad sy'n Tendro nad yw'n cyflwyno Tendr sy'n cydymffurfio yn unol â'r cyfarwyddiadau yn y Gwahoddiad i Dendro hwn.
- Diarddel unrhyw Sefydliad sy'n Tendro ac sy'n euog o gamliwio difrifol mewn perthynas â'i Dendr, ei fynegiant o ddiddordeb, yr Holiadur Cyn-gymhwyso neu â'r broses dendro.
- Tynnu'r Gwahoddiad i Dendro hwn yn ôl unrhyw bryd, neu ail wahodd Tendrau ar yr un sail neu ar unrhyw sail arall.
- Dewis peidio â dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r broses gaffael bresennol.
- Gwrthod tendr y mae ei bris neu ei gynnig yn ymddangos yn anarferol o isel.
- Gwneud pa newidiadau bynnag y gwêl yn dda i'r Amserlen, y strwythur neu i gynnwys y broses gaffael, gan ddibynnu ar brosesau cymeradwyo neu am unrhyw reswm arall.

Nid yw Uchelgais Gogledd Cymru yn ei rhwymo i dderbyn y dyfynbris isaf nac unrhyw dyfynbris a gyflwynwyd yn ymateb i'r crynodeb hwn.

Ni fydd Uchelgais Gogledd Cymru yn ad-dalu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyflwyno ymateb i'r cais hwn am ddyfynbris.

## Adran 6

### Rhestr wirio

Cyn cyflwyno'ch cais, gwnewch yn siŵr eich bod wedi ystyried a chyflwyno'r holl ddogfennau gorfodol isod. Gallwch gadw golwg ar yr hyn rydych wedi'i gwblhau a/neu ei gyflwyno gan ddefnyddio Atodiad 11 – Rhestr Wirio / Mynegai o Atodiadau.

Cymerwch sylw o'r cyfyngiadau o ran nifer y tudalennau a pheidiwch â mynd dros hyn (ni fydd unrhyw ddeunydd y tu hwnt i'r cyfyngiadau yn cael eu hystyried i'w gwerthuso). Er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb wrth werthuso, gofynnir i bob Ymgeisydd gwblhau eu cyflwyniadau gan ddefnyddio'r templedi Gwerth Technegol, Masnachol a Chymdeithasol sydd wedi'u cynnwys yn y pecyn (Atodiadau 1, 2 a 3). Rhaid defnyddio **ffont Arial, maint 12**.

Yn ogystal â'r atodiadau a restrwyd, mae hefyd yn orfodol i chi ddarparu:

- Copi o dystysgrif gyfredol eich sefydliad o Yswiriant Indemniad Proffesiynol £1m **neu** ymrwymiad i gael un os ydych yn llwyddiannus yn y dyfarniad.
- Copi o bolisi Cydraddoldeb / Cyfle Cyfartal eich sefydliad.

**Tabl 4** - Rhestr wirio

| **Rhestr wirio** | **Gweithred** | **Angenrheidiol er mwyn cyflwyno** |
|---|---|---|
| Gwahoddiad i Dendro | Darllen yn unig. **Fe'ch cynghorir i ddarllen hwn yn gyntaf.** | ✗ |
| Atodiad 1 - Cyflwyniad Technegol | Defnyddiwch y ddogfen hon i gwblhau eich cyflwyniad Technegol. | ✓ |
| Atodiad 2 - Cyflwyniad Masnachol | Defnyddiwch y ddogfen hon i gwblhau eich cyflwyniad Masnachol. | ✓ |
| Atodiad 3 - Cyflwyniad Gwerth Cymdeithasol | Defnyddiwch y ddogfen hon i gwblhau eich cyflwyniad Gwerth Cymdeithasol. | ✓ |
| Atodiad 4 - Gwerth Cymdeithasol | Darllen yn unig. **Fe'ch cynghorir i ddarllen hwn cyn cwblhau eich cyflwyniad gwerth cymdeithasol.** | ✗ |
| Atodiad 5 - Matrics Sgorio | Darllen yn unig. | ✗ |
| Atodiad 6 - Holiadur Cyn-Cymhwyso (PQQ) | Llofnodi a chwblhau. | ✓ |
| Atodiad 7 - Tystysgrif Gwrth-Gydgynllwynio | Llofnodi a chwblhau. | ✓ |
| Atodiad 8 - Telerau ac Amodau Contract Safonol | Darllen yn unig. | ✗ |
| Atodiad 9 - Canllaw ar sut i dendro a Chwestiynau Cyffredin | Darllen yn unig. | ✗ |
| Atodiad 10 - Egwyddorion Caffael - Uchelgais Gogledd Cymru | Darllen yn unig. | ✗ |
| Atodiad 11 - Rhestr Wirio / Mynegai o Atodiadau | Darllen yn unig. | ✗ |
| Tystysgrif Diogelu Proffesiynol | Copi o dystysgrif Diogelu Proffesiynol cyfredol dros £1m neu ymrwymo i'w chael os byddwch yn llwyddiannus yn y wobr | ✓ |
| Polisi Cydraddoldeb / Cyfle cyfartal | Copi o bolisi Cydraddoldeb / Cyfle cyfartal eich sefydliad | ✓ |

# Adran 7

## Gwybodaeth Ychwanegol

### Yswiriant Indemniad

Bydd yn amod penodi fod yr ymgeisydd yn indemnio'r cleient yn erbyn unrhyw hawliadau sy'n codi yn sgil y comisiwn, boed hynny'n digwydd yn sgil esgeulustod neu fel arall. Dylid rhoi cadarnhad bod gan y tendrwr a benodir yswiriant indemniad proffesiynol sy'n werth o leiaf E1m, neu'n fodlon ymrwymo i'w gael os caiff ei benodi - nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y cyfyngiad nifer tudalen.

### Cyfle Cyfartal

Rhaid i'r ymgeiswyr a wahoddir i gyflwyno dyfynbris sicrhau eu bod yn dilyn polisi cyfle cyfartal - yn eu gwaith fel cyflogwr, yn y defnydd a wnânt o wirfoddolwyr ac wrth ddarparu eu gwasanaethau - boed hynny yng nghyswllt iaith, hil, rhyw, tueddiad rhywiol, crefydd neu, fel y bo'n ymarferol, unrhyw anabledd. Dylid cynnwys copi o Bolisi Cyfle Cyfartal y Cyflenwr gyda'r cynnig dyfynbris - nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y cyfyngiad nifer tudalen.

Gwahoddir y Gydaswyr i gyflwyno yn y Gymraeg neu'r Saesneg ac ni fydd cyflwyno yn y naill iaith na'r llall yn golygu y byddant yn cael eu trin yn llai ffafriol.

### Rhyddid Gwybodaeth

Atgoffir ymgeiswyr fod Uchelgais Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Bydd angen i'r ymgeisydd gydymffurfio â holl ofynion perthnasol y ddeddfwriaeth Diogelu Data. Mae Adran 28 ac Atodiad 8 y ddogfen sy'n dwyn y teitl 'Amodau a Thelerau Safonol' yn amlinellu rhwymedigaethau unigol ac ar y cyd pob parti. Nid yw hyn yn rhyddhau, gwaredu na disodli rhwymedigaethau unrhyw barti dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data

### Cyfrinachedd

Bydd yr Ymgeisydd yn trin y Dogfennau Dyfynbris yn breifat a chyfrinachol.

Ni fydd yr Ymgeisydd yn datgelu:

- Y ffaith eu bod wedi derbyn gwahoddiad i gyflwyno dyfynbris nac yn rhyddhau manylion y Contract;
- Manylion eu Cynnig yn llawn neu'n rhannol cyn i'r Contract gael ei ddyfarnu gan Uchelgais Gogledd Cymru na pan fydd yn derbyn hysbysiad nad yw'r Cynnig wedi'i dderbyn os mai hynny yw'r achos, oni bai ei fod yn gwneud hynny'n 'gyfrinachol' wrth y

rheini a chanddynt angen cyfreithlon i wybod neu'r rheini y mae angen iddo ymgynghori â hwy er mwyn paratoi'r Cynnig.

Wrth ymgymryd â'r comisiwn, bydd y cyflenwyr a benodir yn cytuno i beidio â datgelu unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol i unrhyw drydydd parti heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Uchelgais Gogledd Cymru. I'r graddau y mae'n ofynnol i'r Ymgeisydd ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i'w staff, ei asiantau a'i is gontractwyr, bydd yr Ymgeisydd yn sicrhau bod y staff, yr asiantau a'r is gontractwyr hynny yn ddarostyngedig i'r un rhwymedigaethau â'r Cyflenwr o ran yr holl wybodaeth gyfrinachol.

## Buddiannau Sy'n Gwrthdaro

Er mwyn gwarchod materion a allai fod yn fasnachol sensitif, rhaid i ymgeiswyr ddatgelu unrhyw fuddiant neu gomisiynau cysylltiedig a allai effeithio ar y modd y cynhelir yr astudiaeth arfaethedig hon. Mae gofyn i chi gwblhau'r Tystysgrif Gwrth-Gydgynllwyni - Atodiad 7 - nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y cyfyngiad nifer tudalen.

## Telerau ac Amodau

Mae Amodau a Thelerau Safonol y Contract wedi'u cynnwys yn Atodiad8.

## Cyflwyniadau'r Consortiwm

Mae Ambition North Wales yn cydnabod bod ceisiadau consortiwm yn bosibl. Yn achos y cynigir cynnig consortiwm, rhaid i'r parti sy'n gyfrifol am y rhan berthnasol ateb yr adrannau PQQ. Yn achos gwybodaeth ariannol, rhaid cyflwyno gwybodaeth addas er mwyn i Ambition North Wales wneud arfarniad cyflawn o'r consortiwm arfaethedig a'i rannau.

## Ffynonellau Data

Bydd yr holl ffynonellau data a ddefnyddir i lywio'r modelu/arfarniadau economaidd a wneir gan gontractwr y gwaith yma yn cael eu rhannu ag Uchelgais Gogledd Cymru ar ôl ei gwblhau.

## Ymgysylltu ag eraill

Efallai y bydd angen i'r contractwr llwyddiannus ymgysylltu a chydweithio ag ymgynghorwyr presennol (mewnol a/neu allanol) sy'n cefnogi Uchelgais Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd i gael gwybodaeth gyfreithiol a/neu ariannol berthnasol sy'n ofynnol i gyflawni cwmpas gwaith y comisiwn hwn. Bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn helpu i hwyluso unrhyw ymgysylltiad a chydweithrediad sydd ei angen.

## Cronfa Data Cyflenwyr a Holiadur Cyfleoedd Cyfartal

**Cronfa Data Cyflenwyr**

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi sefydlu cronfa ddata fewnol ddiogel a chyfrinachol ar gyfer cyflenwyr, gyda chydsyniad cyflenwyr, er mwyn cadw gwybodaeth hanfodol at ddibenion cyflenwi yn unig. Mae'r gronfa ddata hon yn ein galluogi i hysbysu cyflenwyr cofrestru'n uniongyrchol pryd bynnag y cyhoeddir hysbysiad cyflenwi ar Sell2Wales.

Os hoffech i'ch sefydliad gael ei ychwanegu at y gronfa ddata hon, yna cwblhewch y ffurflen hon i gofrestru.

Noder nad yw hyn yn elfen orfodol ac ni fydd yn effeithio ar eich cyflwyniad os ddewiswch peidio â'i gwblhau neu beidio.

**Holiadur Cyfleoedd Cyfartal**

Mae Uchelgais Gogledd Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein proses gaffael. Er mwyn cefnogi'r ymrwymiad hwn, gofynnwn yn garedig i gyflenwyr lenwi'r Holiadur Cyfle Cyfartal i'n helpu i asesu a gwella cynhwysiant yn ein gweithgareddau caffael. Mae'r ymatebion yn cynnig cyfle gwerthfawr i ni adnabod a deall y rhwystrau y gallai SMEs fod yn eu hwynebu yn well, ac yn ein galluogi i archwilio sut y gallwn gynnig cymorth a chyfarwyddyd priodol i helpu cyflenwyr i gryfhau eu gallu yn y meysydd hyn.

Nodwch nad yw hyn yn elfen orfodol ac ni fydd yn effeithio ar eich cyflwyniad os dewiswch peidio â'i gwblhau. Ni fydd cwblhau'r Holiadur Cyfleoedd Cyfartal yn dylanwadu ar gymhwysedd na penderfyniadau ynglyn a unrhyw gyflenwr mewn perthynas ag unrhyw gyfleoedd tendro gyda ni.

## Atodiadau

Atodiad 1 - Cyflwyniad Technegol

Atodiad 2 - Cyflwyniad Masnachol

Atodiad 3 - Cyflwyniad Gwerth Cymdeithasol

Atodiad 4 - Gwerth Cymdeithasol

Atodiad 5 - Matrics Sgorio

Atodiad 6 - Holiadur Cyn-Cymhwyso (PQQ)

Atodiad 7 - Tystysgrif Gwrth-Gydgynllwynio

Atodiad 8 - Telerau ac Amodau Contract Safonol

Atodiad 9 - Canllaw ar sut i dendro a Chwestiynau Cyffredin

Atodiad 10 - Egwyddorion Caffael - Uchelgais Gogledd Cymru

Atodiad 11 - Rhestr Wirio / Mynegai o Atodiadau